# Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M.Huws (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair) |
| | **Cyngor Gwynedd** |
| | Y Cynghorwyr Caerwyn Roberts (Cadeirydd) (ar ôl eitem 3), Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Eirwyn Williams |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O. Jones, R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysg)<br>Mrs Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu) (CSYM)<br>Mr Gwern ap Rhisiart (Uwch Reolwr Cynhwysiad) (Cyngor Gwynedd)<br>Mr William E. Jones (Uwch Reolydd Cyllid) (Cyngor Gwynedd)<br>Mrs Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Addysg) (Cyngor Gwynedd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) (CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Annwen Hughes (Gwynedd), Derlwyn Hughes, Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg) (CSYM)<br>Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Portffolio Addysg) (Cyngor Gwynedd) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 9 IONAWR, 2015**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 STRATEGAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Rhoddodd yr Aelod Portffolio Addysg i Gyngor Gwynedd wybod i'r Pwyllgor fod y broses ymgynghori ar strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer ADY a Chynhwysiad nawr wedi'i chwblhau ac y cafwyd cytundeb cyffredinol ymysg yr ymatebwyr ynghylch beth fyddai egwyddorion sylfaenol y Strategaeth. Byddai'r cam nesaf yn cynnwys cyfnod modelu gwasanaeth a fyddai'n destun trafodaeth ac ymgynghori pellach gan gynnwys gyda'r Cyd-bwyllgor AAA, cyn adrodd i Gabinet Cyngor Gwynedd yn yr hydref.

Adroddodd Swyddog Cynhwysiad Cyngor Gwynedd y cafwyd ymateb da i'r ymgynghoriad; roedd nifer o ymatebion wedi ceisio gwell eglurder a manylion ynghylch natur y

ddarpariaeth ac wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau bod modelau darpariaeth yn gallu cwrdd ag anghenion. Roedd gwaith eisoes wedi cychwyn ar fodel Ymddygiad.

Dywedodd Pennaeth Dysgu CSYM fod rhai pryderon o safbwynt Ynys Môn ynghylch effeithiau posibl yr adolygiad ADY a Chynhwysiad a wnaed gan Gyngor Gwynedd ar wasanaethau i blant yn Ynys Môn. Pwysleisiodd fod angen i'r trafodaethau arfaethedig fod yn glir ynglŷn â'r modelau darparu a bod angen iddynt hefyd roi sylw i unrhyw effeithiau ar y bartneriaeth gyfredol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn cyn y caiff cynigion eu cyflwyno i'r Cabinet yng Ngwynedd.

Roedd cynrychiolwyr Cyngor Môn ar y Cyd-bwyllgor yn eilio'r farn hon ac fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith fod yr amserlen adrodd wedi llithro gan nad oedd y Cyd-bwyllgor wedi cwrdd ers mis Ionawr. Pwysleisiwyd ganddynt fod trafodaethau ar y cyd ynghylch siâp y ddarpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol yn y ddwy sir yn hanfodol.

Cytunodd Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd ei bod yn bwysig fod y ddwy ochr yn cael eu diweddaru'n gyson a chadarnhaodd mai dyma yw'r amcan.

Cyfeiriodd Pennaeth Dysgu CSYM at drafodaethau a oedd yn parhau rhwng swyddogion ynghylch modelau cychwynnol i ddarparu'r gwasanaeth, ac awgrymodd y dylai unrhyw drafodaethau o'r fath yn y dyfodol gynnwys gwahoddiad i'r cynrychiolwyr etholedig o Wynedd ac Ynys Môn ar y Cyd-bwyllgor fod yn rhan ohonynt.

Roedd aelodau'r Cyd-bwyllgor yn cytuno y byddai cael eu diweddaru'n gyson yn gymorth iddynt ddeall yn well a gwerthfawrogi'r achos am adolygiad, a'r ffactorau a'r materion sydd ynghlwm.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa ynghylch bwrw ymlaen â Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer ADY a Chynhwysiad.**
- **Bod cynrychiolwyr etholedig o Wynedd ac Ynys Môn ar y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ar ddatblygu modelau darparu gwasanaeth fel rhan o'r strategaeth ar gyfer ADY a chynhwysiad.**

**GWEITHRED YN CODI: Swyddogion Gwynedd ac Ynys Môn i gysylltu gyda'i gilydd i gyflwyno gwahoddiadau i aelodau'r Cyd-bwyllgor i fynychu trafodaethau.**

## 4 UNED DDARPARU AAA

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg ar waith yr Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor y gwanwyn 2015 i'r Cyd-bwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Prif Seicolegydd Addysg ar yr agweddau a ganlyn –

- Gweinyddu prosesau asesu ac adolygu.

Cyfeiriodd y Swyddog at y sefyllfa staffio a'r ffaith fod yr Uwch Swyddog Gweinyddol wedi gadael ar ôl i'w chyfnod secondiad ddod i ben. Dywedodd y Swyddog hefyd fod y broses Arfarnu Swyddi wedi dod i'w therfyn yn Ynys Môn ac y rhoddwyd gwybod am ganlyniad y broses i staff yn gynharach yr wythnos honno. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at ddiwedd y broses Arfarnu Swyddi ym Môn yng nghyswllt ei oblygiadau i staff gweinyddol a chefnogol yr Uned.

- Y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Adroddodd y Prif Seicolegydd Addysg fod gan yr Uned Ddarparu dîm cryf o athrawon arbenigol ar hyn o bryd sy'n gweithio ym mhob maes arbenigedd, gan gynnwys athrawon profiadol; athrawon sydd wedi cael eu penodi i gymryd cyfrifoldeb am ddyletswyddau staff sydd bron ag ymddeol, a chymorthyddion arbenigol sy'n gallu gwneud agweddau penodol o'r gwaith gan felly ryddhau athrawon i wneud dyletswyddau eraill. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gorfod cystadlu â chyllideb sy'n lleihau am fod Ynys Môn wedi dyrannu llai o arian i'r Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn ariannol 2015/16 ynghyd â chanlyniadau tebygol hynny. Mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o effeithiau posib ar ddarpariaeth gwasanaethau oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

- Y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysg fod y gwasanaeth yn gweithio gyda llai o staff nag arfer oherwydd bod dau seicolegydd rhan amser wedi gadael y gwasanaeth a bod dau seicolegydd dan hyfforddiant yn cael eu cefnogi ar y cwrs proffesiynol yng Nghaerdydd. Mae un o'r uwch seicolegwyr hefyd ar secondiad i Gyngor Gwynedd i gynorthwyo gyda datblygu systemau'r Cyngor ar gyfer trefnu a darparu addysg anghenion arbennig. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu system lle caiff seicolegydd ei ddyrannu i bob ysgol ac mae seicolegydd cynorthwyol wedi bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn gweithio gydag ysgolion gyda phlant unigol.

- Data Perfformiad

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysg at y tablau yn adran 4 yr adroddiad oedd yn dangos nifer y datganiadau terfynol a gynhyrchwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod blwyddyn ysgol 2013/14. Mae'r ffigurau'n dangos bod y tîm gweinyddol wedi cynhyrchu nifer sylweddol fwy o ddatganiadau yn 2013/14 nag a wnaeth yn 2012/13 gyda chynnydd o 75% i Wynedd a chynnydd o 64% i Ynys Môn.

Rhoddodd y Cyd-Bwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y materion a ganlyn –

- Nododd y Cyd-bwyllgor y byddai'n fuddiol iddo, er mwyn deall y sefyllfa staff, dderbyn gwybodaeth ar ffurf tabl yn dangos y gofynion staffio yn erbyn sefyllfa wirioneddol y staff. Dywedodd Pennaeth Dysgu Ynys Môn ei bod yn anodd recriwtio staff dwyieithog sydd wedi cymhwyso'n briodol, felly er mwyn goresgyn hynny a phontio unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth mae'r Cyd-Bwyllgor wedi penodi hyfforddai ar ôl cytuno a chynllunio i ddefnyddio arian wrth gefn y Cyd-Bwyllgor. Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysgol, er bod y sefyllfa staffio yn foddhaol ar hyn o bryd, mae cynnal y sefyllfa honno'n golygu mynd tu hwnt i gyllideb y Cyd-bwyllgor yn enwedig gan fod Ynys Môn wedi lleihau ei gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor gan felly olygu y bydd angen gwneud toriadau.
- Nododd y Cyd-Bwyllgor eu bod wedi colli gwasanaeth un Uwch Seicolegydd i Wynedd oherwydd secondiad.
- Roedd y Cyd-Bwyllgor yn bryderus ynghylch y gostyngiad yng nghyllideb y Cyd-bwyllgor a'r risg allai ddeillio o hynny o ran y posibilrwydd o beidio â gallu cwrdd ag anghenion carfan fregus o blant. Dywedodd Pennaeth Dysgu Ynys Môn fod y Cyd-bwyllgor wedi cael gwybod yn ei gyfarfod ym mis Medi 2014 fod gwasanaethau trwy Gyngor Sir Ynys Môn wedi cael cais i adnabod arbedion o 10% er mwyn paratoi at yr ymgynghoriad ar gyllideb 2015/16 a bod gostyngiad yng nghyllideb y Cyd-bwyllgor yn un o'r opsiynau oedd yn cael eu hystyried. Cadarnhawyd y byddai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu yn y cyfarfod diwethaf ym mis Ionawr 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2015. Er gwaethaf hyn, gwnaed pob ymdrech i sicrhau na fyddai'n ymyrryd â'r ddarpariaeth a wneir i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- Bu i'r Cyd-Bwyllgor nodi gweithredu arfarnu swyddi gan Gyngor Môn fel risg bosibl yn nhermau cadw staff a effeithiwyd yn negyddol gan y broses. Dywedodd Pennaeth

Dysgu Ynys Môn fod y Cyngor ym Môn yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi symud i weithredu'r Cytundeb Statws Sengl.

- Nododd y Cyd-Bwyllgor fod y perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad statudol wedi dirywio'n sylweddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn o ran canran yr achosion a gaiff eu cwblhau o fewn 26 wythnos. Awgrymodd Pennaeth Dysgu Ynys Môn fod hyn yn arwydd o'r diffyg meddygon plant sy'n arwain at oedi wrth gael mewnbwn gan Iechyd i achosion y Cyd-Bwyllgor. Golyga hyn na chaiff asesiadau eu cwblhau yn unol ag amserlenni. Dywedodd fod methu â chwblhau gwaith ar amser yn fater o bryder.
- Nododd y Cyd-Bwyllgor y byddai'n fuddiol iddo gael gwybod faint o blant mae'r canran yn ei gynrychioli fel ei bod yn haws iddo benderfynu a yw'r dirywiad yn y lefelau perfformiad o ganlyniad i feini prawf mwy llym ynteu o ganlyniad i gynnydd yn nifer y plant sydd angen asesiad. Dywedodd Swyddog Cynhwysiad Cyngor Gwynedd fod BIPBC nawr wedi cynnig gwasanaeth gan feddyg plant i'r paneli cymedroli fel y gallai'r gwasanaeth iechyd roi mewnbwn mwy prydlon a dylai hynny roi sylw i'r pryderon mwyaf difrifol. Fodd bynnag, mae'r adolygiad o ADY a Chynhwysiad a wnaed gan Gyngor Gwynedd fel rhan o ddatblygu strategaeth newydd wedi ceisio ailasesu effeithiolrwydd y system gyfan, gan gynnwys nifer y datganiadau a gaiff eu cynhyrchu, yn hytrach nag edrych ar faterion penodol oddi mewn iddi megis y rhesymau pam na chaiff datganiadau eu cwblhau oddi mewn i amserlenni.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU'N CODI: Y Prif Seicolegydd Addysgol i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â nifer y plant / achosion y mae'r canran perfformiad dan DP 15a a DP 15b yn eu cynrychioli.**

## 5 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2014/15

Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cyd-bwyllgor AAA ar gyfer 2014/15 i'r Pwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 sy'n gofyn i bob Cyd-bwyllgor gynhyrchu Datganiad o Reolaeth Fewnol.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2014/15.**

## 6 CYFRIFON TERFYNOL 2014/15

Cyflwynwyd i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor – adroddiad gan Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymgorffori Cyfrifon Gwariant ac Incwm Refeniw'r Cyd-Bwyllgor AAA ar gyfer 2014/15 (Atodiad A) ynghyd â'r dychweliad Blynyddol Swyddogol ar y Cyfrifon cyn yr archwiliad, ond wedi'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol (Atodiad B).

Adroddodd yr Uwch Swyddog Cyllid fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gofyn i bob Cyd-Bwyllgor baratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Os yw'r trosiant yn llai na £2.5m pennir bod y cyd-bwyllgor yw gyd-bwyllgor bach ac mae'n rhaid paratoi dychweliad blynyddol yn unol ag arferion priodol fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Bydd y dogfennau'n cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a phe bai angen gwneud unrhyw newidiadau, byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor a drefnwyd ar gyfer mis Medi cyn iddi gael ei hardystio gan yr Archwiliwr cyn 30 Medi.

Rhoddodd y Cyd-Bwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a cheisiodd eglurhad ar rai materion penodol o fewn y Cyfrif Gwariant ac Incwm Refeniw ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn –

• Y gwahaniaeth rhwng y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant (£9,520) a'r gwariant gwirioneddol (£25,159). Dywedodd Pennaeth Dysgu Ynys Môn y gwnaed penderfyniad tua dwy flynedd yn ôl i ddefnyddio swm a gytunwyd o gronfeydd wrth gefn y Cyd-bwyllgor i ariannu hyfforddiant ar gyfer seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol newydd i sicrhau fod gan y Cyd-bwyllgor weithlu sydd wedi cymhwyso'n addas.
• Y cyfiawnhad dros gadw lefel uchel o arian wrth gefn – £150,530 ar 31 Mawrth 2015. Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg fod yna gynllun mewn lle ar gyfer 2014/15 i wario rhan o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu cwrs hyfforddiant ar gyfer seicolegwyr addysg sydd dan hyfforddiant.
• Y cynnydd mewn treuliau teithio a chostau nwyddau swyddfa. Holodd y Cyd-Bwyllgor a fyddai wedi bod modd rhagweld y cynnydd hwn ac addasu'r gyllideb yn unol â hynny. Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg fod y newidiadau wedi digwydd ar ôl i'r gyllideb wreiddiol gael ei gosod. Pe bai'r Cyd-Bwyllgor yn dymuno ariannu gweithgareddau penodol ar gost sy'n uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd, byddai'n rhaid canfod y gwahaniaeth o rywle arall yn y gyllideb. Gan mai prif ffynhonnell wariant y Cyd-Bwyllgor yw ei staff, mae'n debygol y byddai'n rhaid ariannu'r adnoddau o'r pennawd cyllideb hwn gyda goblygiadau i'r lefel staffio. Cynghorwyd y Cyd-Bwyllgor, os oedd yn dymuno diwygio'r gyllideb i gwrdd â gwariant ychwanegol dan benawdau penodol e.e. costau teithio, yna byddai'n rhaid iddo ail-ddyrannu adnoddau o benawdau eraill er mwyn gwneud hynny, neu resymoli teithio. Roedd gan y Cyd-Bwyllgor gynllun wedi'i gytuno ar gyfer 2014/15 i dynnu arian i lawr o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu cwrs hyfforddi ar gyfer seicolegwyr dan hyfforddiant; fel arall roedd yn rhaid i'r Cyd-Bwyllgor sicrhau bod y gwariant yn aros oddi mewn i'r gyllideb a ddyrannwyd.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r wybodaeth ariannol a gyflwynwyd oedd yn cynnwys yr hyn a ganlyn -**

- **Y Cyfrif Gwariant ac Incwm Refeniw ar gyfer 2014/15 a,**
- **Y Dychweliad Blynyddol Swyddogol ar gyfer 2014/15 (cyn archwilio)**

## 7 CYLLIDEB 2015/16

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg nad oedd hi mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gyflwyno cyllideb bendant i'r Cyd-bwyllgor ar gyfer 2015/16 oherwydd ansicrwydd ynghylch nifer o ffactorau yn cynnwys Uwch Seicolegydd ar secondiad i Gyngor Gwynedd; y gostyngiad o 10% yng nghyfraniad Ynys Môn; adleoli'r Cyd-Bwyllgor a chostau mynychu; defnyddio'r balansau a'r ymrwymiad parhaol i ariannu'r ddau seicolegydd addysg dan hyfforddiant. Dywedodd y Swyddog y gobeithiai y byddai'r materion hyn wedi cael eu datrys erbyn cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor ym mis Medi. Byddai'r broses o osod y gyllideb hefyd yn rhoi ystyriaeth i allbwn y gyllideb ar gyfer 2014/15, gan gynnwys y gorwariant ar nifer o benawdau cyllideb.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa.**

## 8 CYFARFODYDD AM Y FLWYDDYN I DDOD

Nodwyd y byddai cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor ar gyfer 2015/16 yn cael eu cynnal ar y dyddiadau a'r amseroedd a ganlyn –

- Dydd Gwener, 18 Medi, 2015 am 2:00 p.m.
- Dydd Gwener, 20 Tachwedd, 2015 am 10:30 a.m.
- Dydd Gwener, 18 Mawrth, 2016 am 10:30 a.m.

**Cynghorydd E. Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd**